

Cofion a Chyfarchion

Anfonwn ein cofion cynhesaf at Eurgain Pierce (Llanefydd) fu'n cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd am rai dyddiau yn ddiweddar. Diolchwn amdani ac am bob gofal y mae'n ei dderbyn. Cyflwynwn Eurgain a'r teulu, ac eraill yn yr ofalaeth sydd heb fod yn mwynhau'r ieched gorau, i ofal yr Arglwydd.

Llongyfarchiadau i Dafydd a Sian Owen (Hiraethog) ar enedigaeth merch, Sara Iwan. Diolchwn i Dduw am y rhodd arbennig yma a dymunwn Ei fendith ar y teulu bach.

Cyrsiau Coleg y Bala

- ⇒ **ADUNIAD: 10 - 12 Chwefror 2023.** Penwythnos i bobl ifanc 15+ a Myfyrwyr. Cewch ddigon o gemau ac amser da yn archwilio'r Beibl gyda'ch gilydd. Y gost yw £65 sy'n cynnwys y digwyddiad, bwyd, gweithgareddau a llety.
- ⇒ **CHWALFA CHWFROR: 20 - 21 Chwefror 2023.** Deuddydd i blant cynradd oed 8-11 i ddysgu am Iesu, yn llawn gemau gwirion, crefft, chwaraeon, canu ac ymlacio yn y 'gaming room'. Y gost yw £42 sy'n cynnwys yr holl weithgareddau, bwyd a'r llety.
- ⇒ **CWRS IEUENCTID: 24 - 26 Chwefror 2023.** Penwythnos i bobl ifanc, blynyddoedd 7-10 yn llawn gemau newydd gwirion, bydd noson 'take away', crefft, amser i ymlacio yn y 'gaming room', amser i ddal fyny hefo ffrindiau hen a newydd, a bydd trip i 'Surf Snowdonia' yn Nolgarrag i'r 'Ninj Assault Course & Extreme Slides'. Trwy gydol y penwythnos fe fydd sesiynau byr i edrych ar y Beibl mewn ffordd hawdd i ddeall ac addas i'ch oedran. Bydd y penwythnos yn cychwyn am 6:00 ar y nos Wener ac yn gorffen am 11:30 ar y bore dydd Sul. Cost y cwrs yw £69 sy'n cynnwys pob dim.

Medrwy archebu lle ar gyfer y cyrsiau uchod ar y wefan:

www.colegybala.org/Cymraeg/rhaglen-y-coleg neu trwy ffonio 01678 520565.

(Cofiwch mai hanner y pris fydd y gost i'r ail neu drydydd plentyn o'r un teulu, a bod Eglwysi Bro Aled yn cynnig £10 o ostyngiad i bob unigolyn mewn addysg sydd am fynychu.)

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📱 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📱 07900 627536

Cyhoeddiadau ar gyfer y rhifyn nesaf i'w hanfon i Mair erbyn nos Fercher, Chwefror 8^{fed}, os gwelwch yn dda.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 29 Ionawr 2023

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

Ddydd Llun diwethaf daeth cyfle i mi gerdded ychydig yng nghwmni Andras Iago. Dechreuodd y daith ar y gwastad o gwmpas Llyn Crafnant, ond gan fod Andras yn llawer mwy ffitt ac anturus na mi, awgrymodd y gallem fentro i fyny'r llethrau i gyfeiriad Cimpiau – copa 475m o uchder rhwng Llyn Crafnant a Chapel Curig. Ar y brig cawsom sgwrs gyda cherddwr arall oedd yno o'n blaenau. Pan ofynnodd i ni oeddem ni'n lleol, a minnau'n pwyntio at fy nghyn-gartref oddi tanom, dywedodd yn frwdfrydig – 'mae'n rhaid dy fod yn adnabod y mynyddoedd yma fel cefn dy law?' Dwi'n siŵr fy mod wedi gwrido cryn dipyn wrth gyfaddef nad oedd hynny'n wir! Serch fy mod wedi fy magu yng nghanol mynyddoedd Eryri, dim ond llond llaw o gopaon yr wyf wedi eu cyrraedd. Mwyaf cywilydd, er eu bod ar ein stepen drws yng Nghapel Curig, methais wneud y mwyaf o'r cyfleoedd arbennig i'w mwynhau!

Ac mae hynny'n beth hawdd i ddigwydd i lawer ohonom. Rydym ni'n byw mewn cyfnod lle mae pob math o wybodaeth ddim ond clic i ffwrdd oddi wrthym. Ddwy ganrif yn ôl bu Mari Jones yn barod i gerdded milltiroedd lawer er mwyn prynu Beibl iddi'i hun. Ond erbyn hyn, dwi'n siŵr fod y rhan fwyaf ohonom hefo mwy nag un Beibl yn y tŷ, heb sôn am y casgliad enfawr o Feiblau Cymraeg a Saesneg, pregethau, ac astudiaethau Beiblaidd sydd ar gael yn ddiraffferth ar y we. Er yr holl gyfoeth o adnoddau, mor hawdd yw colli'r cyfleoedd arbennig i ryfeddu at ddaioni Duw a thyfu'n debycach i'r Arglwydd Iesu trwy ddarllen, myfyrio, gweddïo a byw bywyd o addoliad gyda'n cyd-Gristnogion.

Dros y blynyddoedd, dau brif beth sydd wedi fy symbylu i gerdded mynyddoedd: anogaeth ffrindiau a sylweddoli drosod fy hun cymaint yr wyf yn mwynhau ar y llethrau. Ydym ni wedi rhoi'n ffydd yng Nghrist a phrofi'r cariad a'r maddeuant unigryw sydd ond yn dod trwyddo Ef? Ac wedi hynny, ydym ni'n barod i annog eraill i ymuno â ni ar y daith yn hyderus fod Iesu'n fwy na digon i'n bodloni?

Ar ôl eu sgwrs wrth ffynnon Jacob, aeth y wraig a fu'n siarad ag Iesu i ffwrdd gan gyhoeddi wrth eraill ei bod yn tybio iddi gyfarfod y Meseia. Credodd llawer o Samariaid yng Nghrist wedi tystiolaeth hynod y wraig, ond mae'r bennod yn mynd ymlaen i nodi – 'A daeth llawer mwy i gredu ynddo trwy ei air ei hun. Meddent wrth y wraig, "Nid trwy'r hyn a ddywedaist ti yr ydym yn credu mwyach, oherwydd yr ydym wedi ei glywed drosom ein hunain, ac fe wyddom mai hwn yn wir yw Gwarddwr y byd." (Ioan 4:41-42)

Rhodri

Cyhoeddiadau'r Fro

Dydd Sul, Ionawr 29^{ain}

- **Oedfa yng Nghefn Meiriadog** am 9:30 ac yn **Llansannan** am 11:00 o dan arweiniad Mr Gerallt Jones. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llansannan, a bydd Ysgol Sul yr oedolion yng Nghefn Meiriadog am 2:00.
- **Oedfa yn Henllan** am 9:30 ac yn **Llanefydd** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. John Pritchard. Bydd Ysgol Sul yn Henllan am 10:30 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â'r oedfa yn Llanefydd.
- **Oedfa yn Saron** am 10:00 ac **Oedfa Gymun yn Nantglyn** am 2:00 o dan arweiniad Rhodri. Yn ystod yr oedfa yn Nantglyn, bydd Leah Davies yn cael ei derbyn yn aelod cyflawn o'r eglwys.

Dydd Llun, Ionawr 30^{ain}

- **Cyfarfod Blaenoriaid a Diaconiaid Gofalaeth Bro Aled** yn Llansannan am 7.30 yr hwyr. *DYDDIAD WEDI EI AIL-DREFNU

Dydd Mawrth, Ionawr 31^{ain}

- **Cinio Jangl** yn Festri Llansannan am 12:00.

Dydd Mercher, Chwefror 1^{af}

- **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yng Nghapel Caerwys am 6:30 yr hwyr. Yn ystod y cyfarfod, bydd Rhodri'n trosglwyddo'r llywyddiaeth i Mr Meirick Lloyd Davies (Cefn Meiriadog). *DYDDIAD WEDI EI AIL-DREFNU

Dydd Iau, Chwefror 2^{il}

- **Hwyl Pnawn Iau** (oedran derbyn – Bl.6) yn Festri Llansannan o 3:15–4:30 o dan ofal Rhodri a Gwenno a gweithwyr Coleg y Bala. Os nad ydych wedi cofrestru yn barod, rhowch eich enwau i Gwenno (07833 138515), os gwelwch yn dda.

Dydd Gwener, Chwefror 3^{ydd}

- **Paned a Sgwrs yng Nghapel Llanefydd** am 10:00. Croeso cynnes i bawb.

Dydd Sul, Chwefror 5^{ed}

- **Bore Bro Aled yng Nghapel Cefn Meiriadog** am 10:30 o dan arweiniad Rhodri.

Dydd Llun, Chwefror 6^{ed}

- **Astudiaeth Feiblaidd ar ZOOM:** 'Yn edrych ar enwau'r Iesu' am 7:00 yr hwyr o dan arweiniad gweithwyr Dorcas. (Manylion mewngofnodi: <https://us02web.zoom.us/j/83243383071> neu deialwch 0208 080 6592 i ymuno ar y ffôn. Meeting ID: 832 4338 3071) Trefnir gan Is-bwyllgor Chwiorydd EBC.

Dydd Mawrth, Chwefror 7^{fed}

- **Paned a Sgwrs** yn Festri Llansannan am 1:30 y pnawn. Edrychwn ymlaen hefyd i gael cwmni Rhys a Sheila Dafis. Croeso cynnes i bawb.

Dydd Iau, Chwefror 9^{fed}

- **Hwyl Pnawn Iau (oedran derbyn – Bl.6)** yn Festri Llansannan o 3:15–4:30 o dan ofal Rhodri a Gwenno a gweithwyr Coleg y Bala.

Dydd Sadwrn, Chwefror 11^{eg}

- **'Maeth' – Encil i amaethwyr: "Gobaith mewn dyddiau o newid"** yng Nghanolfan Bryn-y-groes, Y Bala. Y siaradwr fydd Wyn Evans sy'n gweinigogaethu i ffermwyr yn Ne Cymru. Cinio am 1:00, cyfarfod am 2:00. Croeso i'r gymuned amaethyddol.

Dydd Sul, Chwefror 12^{fed}

- **Oedfa yn Llansannan** am 9:30 ac **yng Nghefn Meiriadog** am 11:00 o dan arweiniad Rhodri. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llansannan, a bydd Ysgol Sul yr oedolion yng Nghefn Meiriadog am 2:00.
- **Oedfa yn Groes** am 9:30 ac **yng Nghefn Berain** am 11:00 o dan arweiniad Dewi Williams. Bydd Ysgol Sul yn Groes yn dilyn yr oedfa.
- **Oedfa yn Saron** am 10:00 ac **yn Nantglyn** am 2:00 o dan arweiniad Celfyn Williams.
- **'Gwreiddiau'** – Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y prynhawn. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Andras Iago (07778 511672).

Rhaghysbys

- **Cyfarfod Blynyddol Eglwys Unedig Llansannan** nos Lun, Chwefror 13eg am 7:30 yn y Festri. Croeso i bob aelod o'r eglwys.